PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 155 | Rhif 14 | Ebrill 7, 2022 | 50c.

# ‘MAE MOSCOW YN GWYLIO’

## Gorchymyn Cristnogion Uniongred i gadw’n dawel

Mewn pennod o’r gyfres gomedi *Fawlty Towers* mae’r gwestywr gwallgof Basil Fawlty yn cael ei siarsio gan ei wraig ‘Don’t mention the war!’ pan ddaw teulu o’r Almaen i aros yn y gwesty. Mae’n amlwg mai dyna’r gorchymyn gan Moscow i offeiriaid a ffyddloniaid yr Eglwys Uniongred ym Mhrydain hefyd. Ond yn wahanol i’r sefyllfa yn *Fawlty Towers,* does dim byd yn ddigri am waharddiad Rwsia o ddefnydd y gair ‘rhyfel’ wrth gyfeirio at y gyflafan yn Wcráin.



### Brwydr ysbrydol?

Mae gweddïo taer dros bawb sy’n dioddef yn y rhyfel yn digwydd mewn capeli ac eglwysi o enwadau eraill ledled y byd, ond mudandod am y lladdfa yn addoliad yr eglwysi hynny sy’n perthyn i Batriarchaeth Moscow o’r Eglwys Uniongred. (Mae 14 Patriarchaeth i gyd mewn sawl gwlad - gweler rhifynnau blaenorol o’r *Tyst*.) Mae 60 o blwyfi Uniongred ym Mhrydain o dan awdurdod y Patriarch Kirill ym Moscow, gan gynnwys un yng Nghaerdydd. Mae yntau’n cyfiawnhau’r rhyfel fel brwydr ysbrydol rhwng y Dwyrain a thwf agweddau rhyddfrydol y Gorllewin, gan gynnwys hawliau bobl hoyw. Tra bod gweddill y byd yn dilyn y sefyllfa yn Wcráin ag arswyd a chonsyrn mawr, mae aelodau’r eglwysi Uniongred hynny ym Mhrydain sydd o dan awdurdod Kirill wedi cael gorchymyn i ddiffodd y teledu a pheidio â darllen papurau newydd. Cafodd yr adroddiadau newyddion ar y BBC ac eraill eu disgrifio fel rhai unochrog ac mae’r ffyddloniaid wedi cael eu siarsio i beidio â siarad â’r wasg o dan unrhyw amgylchiadau.

### Offeiriaid Uniongred dewr

Mae’n amlwg bod hyn yn rhoi offeiriaid ac aelodau cydwybodol mewn sefyllfa anodd dros ben. Ydyn nhw’n mentro herio Moscow, neu’n cadw’n dawel tra bod hi’n ymddangos fod pennaeth eu heglwys yn cyfiawnhau’r trais a’r dioddefaint? Mae rhai offeiriaid wedi mentro codi llais, yn eu plith Stephen Platt, archoffeiriad yr eglwys gadeiriol Uniongred yn Rhydychen. ‘Mae cadw’n dawel yn wyneb drygioni enbyd yn anfoesol,’ meddai, gan fynegi edmygedd mawr o’r offeiriaid hynny yn Rwsia sydd ymhlith y 300 mewn sawl gwlad wnaeth arwyddo datganiad yn condemnio’r rhyfel, a galw am heddwch. Mae o leiaf un – y Tad Ioann Burdin o ranbarth Kostroma – wedi cael ei arestio gan heddlu Rwsia.

Mae’n arferiad mewn eglwysi Uniongred i weddïo dros y Patriarch Kirill mewn pob oedfa. Pan wnaeth y Tad Meletios ym mhlwyf Amsterdam roi’r gorau i weddïo dros eu Patriarch oherwydd ei gefnogaeth i’r rhyfel, fe gyrhaeddodd cennad o Rwsia o fewn dim gyda’r rhybudd ‘fod Moscow yn gwylio.’ Wrth weddïo dros Wcráin, dylem gofio hefyd y Cristnogion Uniongred hynny sydd mewn gwewyr meddwl oherwydd y rhyfel, a’r rhai sy’n cael eu herlid am godi llais.

### Condemnio’r ymosodiad

Mae’r Eglwys Uniongred, er yn 14 cangen annibynnol, yn cydnabod y Patriarch Bartholomew o Gaer Cystenin (Constantinople, sef Istanbul) fel ‘y cyntaf ymhlith y cyfartal’ o arweinwyr yr eglwysi. Mewn datganiad ddiflewyn ar dafod, mae e wedi condemnio’r ymosodiad gan Rwsia fel trais creulon yn erbyn gwlad sofran, hawliau dynol a chyfraith ryngwladol, gan fynegi ei gefnogaeth i bobl Wcráin wrth sefyll dros ‘Dduw a’u gwlad.’ Dywedodd Bartholomew ei fod yn gweddïo ar Dduw cariad a heddwch i oleuo meddyliau arweinwyr Rwsia er mwyn iddynt ddeall canlyniadau trasig eu penderfyniadau a’u gweithredoedd. Mae’n siŵr fod pawb ohonom yn barod i ddweud, ‘Amen!’ i hynny.

**Alun Lenny**

# BETI-WYN YN ARWYDDFARDD!



Llongyfarchiadau mawr i’r Parchg Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr, ar gael ei phenodi’n Arwyddfardd nesaf Gorsedd Cymru. Bydd yn olynu Dyfrig ab Ifor (Dyfrig Roberts) fel Arwyddfardd – y tro cyntaf erioed i fenyw ymgymryd â’r rôl arbennig hon.

Urddwyd Beti-Wyn i’r Orsedd yn Eisteddfod Abertawe a’r Cyffiniau 2006, a bu’n ffyddlon i’w seremonïau ar hyd y blynyddoedd ers hynny. Bu’n ddistain yn Seremoni Gyhoeddi Eisteddfod Ceredigion ym mis Mehefin 2019, a chynorthwyodd yn y gwaith o drefnu ‘Gŵyl yr Orsedd’ yng Nghaerfyrddin yn 2019 i nodi 200 mlynedd ers uno Gorsedd y Beirdd â’r Eisteddfod. Roedd hi’n is-gadeirydd Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr, 2014 a braint arbennig, meddai, oedd cael arwain yr oedfa o lwyfan y pafiliwn yn yr eisteddfod honno.

Meddai Beti-Wyn, ‘Rwyf wedi cael fy magu i werthfawrogi pwysigrwydd yr Eisteddfod Genedlaethol i fywyd ein cenedl, ac wedi’i mynychu’n flynyddol er pan oeddwn yn blentyn. Credaf fod yr Orsedd yn gyfrwng arbennig i hybu datblygu, hyrwyddo, a chyfoethogi’n diwylliant fel Cymry. Mae ei seremonïau yn lliwgar, urddasol a chyfoethog, a’i thraddodiadau’n rhai pwysig y mae angen eu diogelu. Rwy’n edrych ymlaen yn fawr at ymgymryd â chyfrifoldebau’r Arwyddfardd, ac yn ymwybodol iawn o’r fraint fawr a ymddiriedwyd i mi.’

Meddai’r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd, ‘Daeth yn amlwg wrth sgwrsio gyda hi fod awyrgylch ac arwyddocâd defodau’r Orsedd yn agos iawn at galon Beti-Wyn. Mae ganddi frwdfrydedd twymgalon ac rwy’n siŵr y bydd yn effeithiol ac ysbrydoledig wrth ei gwaith.’

Bydd yr Arwyddfardd Beti-Wyn yn ymgymryd â’r swydd ar ddiwedd wythnos Eisteddfod Ceredigion.

# I gyfarch y Parch. Meirion Sewell

*Bu'n saer maen cyn cyflawni hanner can mlynedd yn y weinidogaeth.*



Galwad i adeiladu
gafodd saer, bu'n daer i'w Dŷ,
rhoi'i oes i waith yr Iesu.

Un â'i gŷn am hir ar goedd
drwy'i fywyd i'w dyrfaoedd,
yn naddu trwy'r blynyddoedd.

Ei Feibl yw ei sail i fyw,
ei drywel a'i lefel yw;
cwyd ei wal i garco Duw.

Ym Mhen-y-graig min ei gred
yn ei law sydd i'w glywed,
a'r Gair o'r Llyfr agored.

Ac yn dawel fe welwn
ei fesur a'i ddefosiwn,
a'i chwys e'n yr achos hwn.

Meirion yw'r grefft aflonydd,
yn alaw rhwng y welydd
a chân ddiffwdan y ffydd.

Mae amynedd ei weddi,
y bregeth lle bu'r hogi
y fan hyn yn gefn i ni.

Hwn yw'r pader trwy'r blerwch,
ein llais yn yr haenau llwch
a'i forthwyl yn brydferthwch.

Ei weled a wnawn wedyn
yn cymell i'r bwrdd cymun,
yn troi o hyd at yr Un.

Am aros y mae'r muriau,
y meini a'r emynau,
hwn a'i ddweud i'r un neu ddau.

Ynom mae ei gymwynas,
rhoi a wnaeth, rhoi'i hun yn was,
rhoi'r darnau i greu'r Deyrnas.

**Geraint Roberts**
(ysgrifennydd eglwys Pen-y-graig)

# Myfyrdod Y Pasg: Cymeriadau

*Dyma ail ran myfyrdod am ddigwyddiadau rhyfeddol y Pasg gan Dyfnallt Morlais Owen.*



Hanesyn diddorol iawn sydd i'r bargyfreithiwr Frank Morrison. Cyhoeddodd gyfrol yn dwyn y teitl, *Who Moved the Stone?* Bwriad ei gyfrol oedd gwrthbrofi'r Atgyfodiad. Wrth gasglu tystiolaeth a ffeithiau, teithio a thrafod gyda'i gyfoedion, gwelodd iddo wneud camgymeriad dybryd, camddeall a chamddehongli llwyr. Y canlyniad oedd iddo ysgrifennu'r gyfrol i brofi'r Atgyfodiad.

I bwy ymddangosodd Crist? I unrhyw un ddigwyddodd fod yn y fan a'r lle? Na! Dim o gwbl, ond i unigolion penodol, a dyma hanfod yr ymddangosiadau i ni heddiw, mewn oes lle mae trai ar grefydd, lleihâd mewn mynychu oedfa, tlodi ysbrydol enfawr ac fel y dywedwyd eisoes, siniciaeth a phesimistiaeth wedi estyn eu crafangau i gymaint o aelwydydd a chymunedau.

## Mair Magdalen

Ystyriwch y canlynol:

> Ond yr oedd Mair yn dal i sefyll y tu allan i'r bedd, yn wylo. Gan feddwl mai'r garddwr ydoedd, dywedodd wrtho, 'Os mai ti syr, a'i cymerodd ef, dywed wrthyf lle y rhoddaist ef i orwedd, ac fe'i cymeraf fi ef i'm gofal.' Meddai Iesu wrthi, 'Mair.'
>
> (Ioan 20:15–16)

Dyma'r un enw diamheuol, yr enw a fu'n dystiolaeth derfynnol fod Iesu'n fyw. A dyna i chi weld, gweld annisgwyl, weld anhygoel, gweld ardderchog, gweld â llygad ffydd, gweld unwaith ac am byth, gweld dros dragwyddoldeb. Ymddangos i *gariad a defosiwn*.

> Minnau ni throf i'm gardd o'u sen
> Heb weld a welodd Magdalen.
>
> ('Ar fore Pasg', Cynan)

## Pedr

Onid rhyfedd fod Iesu wedi ymddangos i hwn o bawb? Cofier yn Cesarea Phillipi i Iesu ofyn y cwstiwn: 'Pwy meddwch chwi ydwyf fi'? Atebodd Pedr,'Ti yw'r Meseia.' Iesu yn sôn amdano fel y Graig, 'ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys.'

Pedr wedyn yn yr oruwch-ystafell o gwmpas Bwrdd y Swper Olaf.

> Atebodd Pedr. 'Er iddynt gwympo bob un o'th achos di, ni chwympaf fi byth.' Yn ystod prawf Iesu roedd Pedr yn sefyll y tu allan ac yn gwadu ei adnabyddiaeth o Iesu. Cofiodd eiriau Iesu iddo o gwmpas bwrdd y Cymun. 'Aeth allan ac wylo'n chwerw.'
>
> (Mathew 26:75)

Nid oes maddeuant heb edifeirwch. Mae canlyniad edifeirwch yn fawr. Cadarnheir hyn, dim ond i ni gerdded ar hyd llwybrau Llyfr yr Actau, yn benodol felly, Araith Pedr ar y Pentecost (Actau 2.14). Amod Dyfodiad y Deyrnas yw edifeirwch. Ymddangos i *edifeirwch*.

> Ac er i mi wedyn ei wadu yn ffôl.
> Cymerodd fi, Seimon, i'w fynwes yn ôl.
>
> ('Seimon fab Jona', I. D. Hooson)

## Ar y ffordd i Emaus

Ymddangosiad Crist i'r ddau ddisgybl. Roedd y ddau yn trafod yr hyn a ddigwyddodd i Iesu, yn ceisio rhesymu'r cyfan a ddigwyddodd. Yr oeddent mewn penbleth ac yn ddryslyd eu meddwl ac yn cofio. Yr oedd eu byd wedi ei chwalu, ond rhywle ynghanol y cyfan oedd Iesu, fel y mae o hyd, o gwmpas y bwrdd ar doriad y bara. Pentref, rhyw saith milltir a hanner o Jerwsalem oedd Emaus, ffordd oedd yn arw ac ansicr. Pwy oedd y dieithryn a ymunodd â'r ddau? Neb llai na Iesu. Cymhelliad y ddau oedd iddo aros, 'Aros gyda ni, oherwydd mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben.' O gwmpas y bwrdd, adnewyddir ein cyfle i adnabod Iesu. Sacrament coffáu a chadarnhau ydyw. Ymddangos i'r *dryslyd eu meddwl* y mae.

(*i'w barhau*)

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 7 2022 RHIF 58

# 'Tra bydd dynoliaeth fe fydd amaethu'

Ar drothwy tymor y gwanwyn ac adeg hau, fe glywn yma gan Aled Jones, Henbont, Caernarfon, Llywydd newydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru, am yr heriau sydd i fyd amaeth yn y cyfnod hwn a'r ffydd sy'n gynhaliaeth iddo.


**Aled, fe hoffem ni yn gyntaf dy longyfarch a dymuno bendith arnat eleni wrth iti ymgymryd â llywyddiaeth Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru. Fedri di rannu ychydig am dy gefndir a dy gyswllt efo byd amaeth efo ni?**

Mae 'ngwreiddiau mewn amaeth yn mynd 'nôl dros wyth cenhedlaeth ac yn ôl i Adda hefyd o ran natur. Fe'm ganwyd yng Nghwm Prysor, Trawsfynydd, cyn i'm tad symud i ffermio yng Nghaernarfon ym 1963. Mi es i astudio amaeth ym Mhrifysgol Reading cyn dychwelyd adra ym 1981. Rwyf wedi bod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth amaeth ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu mewn gwahanol swyddi o fewn yr undeb.

**Beth ydy'r heriau mawr mae amaethwyr yn eu hwynebu heddiw, yn dy dyb di?**

Mae heriau dirifedi ar hyn o bryd wrth wynebu gadael yr Undeb Ewropeaidd, newid hinsawdd a chodiadau mawr mewn costau rhedeg ffermydd. Oherwydd natur gwaith ffermwr o weithio oriau hir, weithiau mewn tywydd gwael, yn aml mewn unigrwydd, delio gyda straen gwaith papur di-dor, mae iechyd meddwl ffermwyr wedi diodde'n enbyd, sy wedi arwain at sawl achos trist. Nid yw'r heriau yma yn ddim o'i gymharu â beth sydd wedi dod i'n hwynebu oll yn sgil y rhyfel yn Wcráin. Mae clywed adroddiadau o'r rhyfel, y lluniau echrydus o ddioddefaint a gormes yn peri tristwch mawr imi fel pawb arall. Yn fy ngwaith, mi wn am bwysigrwydd Wcráin fel gwlad ffrwythlon, gynhyrchiol, yn bwydo deg gwaith mwy na'i phoblogaeth ei hun. Mae bron i 30% o'r gwenith ar farchnadoedd y byd yn dod oddi yno, ynghyd ag india-corn a blodyn yr haul. Mae gennyf ofn mawr y bydd mwy yn marw o newyn yn sgil y rhyfel nag a fydd yn uniongyrchol.

**Beth wyt ti'n gobeithio'i gyflawni yn dy rôl eleni gyda'r NFU yng Nghymru?**



Fy ngwaith yw cynrychioli buddiannau'r aelodau ar sawl lefel, megis y Llywodraeth, archfarchnadoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol. Ers blynyddoedd lawer, yn bell cyn bod sôn am ryfel, dwi wedi bod fel proffwyd unig ar brydiau yn ceisio darbwyllo gwleidyddion a'r rhai sy'n cynllunio polisïau o bwysigrwydd cynnal ein gallu i ddarparu bwyd. Mae'r twf ym mhoblogaeth y byd yn arswydus a'r adnoddau naturiol sydd ar gael i'w cynnal yn lleihau. Tafla effeithiau newid hinsawdd hyd yn oed fwy o rwystrau arnom oll wrth inni lyncu carbon o'r ddaear. Os byddaf wedi cael ond ychydig o ddylanwad ar bolisïau, caf orffwys yn dawelach ar ddiwedd y daith.

**Rwyt ti wedi tystio i dy ffydd ar y cyfryngau ac i'r gynhaliaeth a gefaist gan yr Arglwydd drwy adegau anodd. Sut y daethost ti i bwyso ar yr Arglwydd i ddechrau?**

Cefais fy magu ar aelwyd oedd yn gefnogol i waith y capel. Er hynny oll, wyddwn ddim beth a olygai i fod yn Gristion. Arferiad oedd imi heb ryw lawer o effaith oddi mewn. Roedd y ddau ffrind cyntaf wnes i ar ôl cyrraedd y coleg yn astudio'r un cwrs â mi, ond yn fwy na hynny roeddynt yn Gristnogion o argyhoeddiad, yn meddu ar ffydd yn eu gwaredwr, Iesu Grist. Diolch i Dduw am eu rhoddi'n dystion ffyddlon ac am i'r Ysbryd Glân ddangos angen f'enaid.

**Oes yna un enghraifft neu adeg o gwbl y teimlaist ti'r Arglwydd yn arbennig o agos atat?**

Mae angen dyddiol am ofal Duw. Angen dyddiol am faddeuant a gras. Angen dyddiol am nerth a doethineb. Cofiaf fod mewn cyfarfod yn delio gyda phethau digon cymhleth a dyrys, gan deimlo na allwn roi mewnbwn effeithiol. Gweddïais yn dawel ar i Dduw roi imi ddeall a doethineb, ac yn wir mi ges i oleuni i allu dweud rhai pethau wnaeth ddod â'r holl drafod i ben ac fe gafwyd cytundeb. Nid ohonof fi y daeth y doethineb.

**Pa mor ganolog ydy'r syniad o ofalu am greadigaeth Duw i ti o ddydd i ddydd?**

Braint yw cael bod yn ffarmwr a gweld gogoniant a threfn Duw yn y greadigaeth. Weithiau mae'n rhaid sefyll yn llonydd a thawel i gael gwerthfawrogi. Yn anffodus, mae bwrlwm bywyd yn peri inni golli golwg ar rai o'r perlau. Mae gweithio gyda natur yn aml yn dangos effaith pechod yn y greadigaeth. Defnyddiai'r Iesu ddarluniau o fyd natur yn aml yn ei ddamhegion: cofiwn am y drain yn tagu'r egin yn nameg yr heuwr. Yn ddi-os mae comisiwn wedi'i roddi inni yn y Beibl i fod yn stiwardiaid ffyddlon o beth mae Duw wedi'i roddi inni.

**Sut fyddi di'n ymateb pan fyddi'n clywed beirniadaeth ar ddulliau amaethu heddiw? Ydy'r feirniadaeth yn un ddilys?**

Mi wn fod rhai yn gallu bod yn feirniadol ac, yn wir, fe all fod 'na sail i rai pethau. Yn wir, tydym ddim yn byw mewn byd perffaith ac mi fyswn yn herio unrhyw un i gynnig ateb perffaith. Mae gan bawb ei safbwynt yn ôl ei ddeall ei hun, ond tydi hynny ddim wastad yn gyflawn. Y gwir yw ein bod oll angen troi at y Gwaredwr Iesu Grist.

**Mae yna alwadau lawer am dy amser a'th wasanaeth. Oes gen ti air o anogaeth neu gyngor i eraill wrth wasanaethu yn eu meysydd eu hunain?**

Dim ond i fod yn ffyddlon yn yr hyn mae Duw wedi'i roi iddynt, dim mwy, dim llai. Mae rhai yn gwasanaethu trwy ymweld a dangos cariad tuag at rai anghenus, eraill yn defnyddio eu doniau mewn meysydd arbenigol megis meddyginiaeth, ond yr un fydd eu gwobr yn y nefoedd os ydynt yn caru Duw.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 10 Ebrill, am 7:30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)**
Bydd rhaglen yr wythnos hon yn nodi Sul y Blodau. Mi fydd Nia yn Nhyddewi yn cwrdd â'r cyn-esgob, y Gwir Barchedig Wyn Evans, a chawn glywed cyfweliad Cymraeg cyntaf y Parch Kate Bottley, un o gyflwynwyr y rhaglen *Songs of Praise*.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 10 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Cyfres ar amrywiol themâu gydag R. Alun Evans. Emynau am Sul y Blodau fydd yn cael sylw ganddo yn rhaglen yr wythnos hon.

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 10 Ebrill, am 12:00yp**
Gwasanaeth ar Sul y Blodau dan ofal Ieuan Wyn Jones, Llangefni.

cynnal

**Y Gwasanaeth Cwnsela ar gyfer Clerigion, Gweinidogion yr Efengyl, Gweithwyr Cristnogol, a'u Teuluoedd.**

# Gweddi Cynnal Pasg 2022

Arglwydd pob gras a thrugaredd,
plygwn ger dy fron yn wylaidd ac yn ostyngedig,
wrth ddod i ddathlu'r Pasg.
Nid oes i ni hawl na haeddiant wrth ofyn am dy fendith di.
Cyffeswn ein gwendidau, yr amlwg a'r anamlwg, ac ymbil am dy drugaredd.
Gwyddom ein bod yn llestri pridd, sy'n graciau i gyd.
Eto, gwelaist yn dda i ymddangos ar lwyfan daear ym mherson Iesu
a'n gwahodd i gredu ynot a'th ddilyn.

Mae'r byd yn dathlu'r cryf a'r cyfoethog, y grymus a'r dysgedig,
ond gwelaist yn dda i garu'r bregus a'r sawl a chwalwyd, y gwrthodedig a'r diymgeledd.
Molwn di am i ti ein derbyn fel ag yr ydym, heb gyfrif ein pechodau yn ein herbyn.

Ar ôl y cyfnod hir o gyfyngiadau yn dilyn lledaeniad Covid,
gwelwn mor fregus yw cymdeithas ym mhob gwlad.
Mae'r cryfaf ohonom yn wan, a'r mwyaf deallus yn ddiddeall.
Trugarha wrthym.
Mewn byd lle nad oes ateb i drais fel y gwelsom gan Rwsia yn erbyn Wcráin,
cydnabyddwn ein diffyg deall.
Gweddïwn gyda thrigolion Wcráin heddiw, a thros holl ffoaduriaid byd.
Ymgeledda hwy ac arwain y ddynoliaeth i ddarparu ar eu cyfer.
Boed i gysgod y Groes gyrraedd pob cuddfan a chell,
a chynnig gobaith yr atgyfodiad mewn byd o drais Gwener y Groglith.

Cofiwn yn benodol am y rhai sydd â dibyniaeth yn llesgedd i'w bywyd -
iachâ hwy, Arglwydd.
Y rhai sy'n crwydro'n ddigyfeiriad mewn bywyd, arwain hwy.
Y rhai sy'n farwaidd eu gwedd ac yn galon galed, er yn brysur yn y byd –
bywha hwy drwy dy Ysbryd.
Boed i oleuni'r Atgyfodiad lewyrchu yn ein llwydni myglyd ni.
Hyn a ddeisyfwn yn enw Crist y bedd gwag.
**Amen.**



**AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â:**
wynfordellisowen@adferiad.org
Rhif ffôn: 07796 464 045

**www.cynnal.wales**

# Myfyrdod y Grawys

## Cyfres o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

**Grawys 6**

**Darllen: Eseia 43:19–21**



*Llun gwreiddiol: frontriver/flickr*

Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd; y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod? Yn wir, rwy'n gwneud ffordd yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch. Bydd anifeiliaid gwylltion yn fy mawrygu, y bleiddiaid a'r estrys, am imi roi dŵr yn yr anialwch ac afonydd yn y diffeithwch, er mwyn rhoi dŵr i'm pobl, f'etholedig, sef y bobl a luniais i mi fy hun, iddynt fynegi fy nghlod.

### 1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

*Yn y darlleniad hwn o Eseia, deuwn i ddeall fod anifeiliaid ac adar yn ddiolchgar am y dŵr mae Duw yn ei roi iddynt yn y diffeithwch sych a bod Duw yn rhoi'r hyn mae arnom ninnau ei angen hefyd. Weithiau, byddwn yn drysu rhwng yr hyn mae arnom ei angen a'r hyn rydym ei eisiau. Pa fath o 'ddŵr' ysbrydol fydd arnom ei angen heddiw er mwyn tyfu mewn ffyddlondeb a chanfod pwrpas Duw? Am ba fath o 'ddŵr' ysbrydol y mae pobl yn chwilio yn eu hymchwil ysbrydol y tu allan i'r ffydd Gristnogol?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Duw yn wir yn gwneud rhywbeth newydd pan ymddangosodd ffynnon o ddŵr ar safle ei gwellhad, sydd yn dal yno i'w gweld heddiw. Sut y gall y bobl sy'n ymweld â'r ffynnon ddarganfod mwy am gariad a thrugaredd rhyfeddol Duw a sut y gallwn eu helpu i wneud hynny?

### 2 Rhywbeth i adfyfyrio arno

*Yn eich barn chi, beth yw ystyr 'y bobl a luniais i mi fy hun'? Yn eich bywyd Cristnogol, a ydych yn ymwybodol o fod wedi cael eich dewis, eich porthi a'ch arwain gan Dduw? Ydych chi erioed wedi dod ar draws 'diffeithwch' yn eich bywyd ysbrydol, neu wedi cael cyfnodau trafferthus? Ble mae dod o hyd i help mewn adegau o sychder ysbrydol, a phryd y gwnaethoch chi ddarganfod Duw yn gwneud 'peth newydd' yn eich bywyd?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Duw yn gwneud rhywbeth newydd rhyfeddol wrth ei hatgyfodi a rhoi'n ôl iddi ei bywyd o ymrwymiad i'r Iesu y mae hi am ei ddilyn. Daw dŵr yn symbol pwysig o wellhad a gobaith. Sut gall y stori hon ein helpu i siarad ag eraill am wellhad a gobaith a'r pethau newydd, rhyfeddol y gall Duw eu gwneud ym mywydau pobl?

### 3 Rhywbeth i'w wneud

*Mewn pob math o ffyrdd, mae pobl yn y gymdeithas fodern yn sychedu am ddŵr yn y diffeithwch. Ond, yn aml, does ganddynt mo'r geiriau i esbonio'n union beth maent ei eisiau neu ei angen, neu eu bod yn poeni am siarad am eu profiad o Dduw rhag ofn i bobl chwerthin am eu pennau. Yn eich bywyd Cristnogol, neu yn eich eglwys, casglwch rai pethau i sbarduno sgwrs fyddai'n caniatáu i bobl rannu eu stori neu holi cwestiynau.

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae gwyrth yn digwydd, a chaiff ei chodi o farw'n fyw, a daw ffynnon newydd o ddŵr i'r amlwg. Mae gan bobl y tu allan i'r eglwys yn aml gryn ddiddordeb mewn hanesion am wyrthiau a digwyddiadau rhyfeddol. Ond beth fyddai pobl heddiw yn ei ddisgrifio fel 'gwyrth'? Gwnewch dipyn o ymchwil ac edrych ar lyfrau neu ar-lein am enghreifftiau o wyrthiau cyfoes. Sut gallwn ni fod yn dystion i allu Duw trwy'r Ysbryd Glân i siarad â phobl am wyrthiau?

### 4 Treiddio'n Ddyfnach

*Gawsoch chi erioed brofiad o syched ysbrydol dwfn? Ble fyddwch chi'n troi pan fyddwch angen adfywiad ac ysbrydoliaeth newydd yn eich bywyd ysbrydol a'ch arfer Cristnogol?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae ei marwolaeth a'i hadferiad yn digwydd y tu allan ac y mae'r ffynnon iachusol sy'n ymddangos yn ffenomen naturiol yn yr awyr agored. Pa fath o ddigwyddiadau cyhoeddus y dyddiau hyn sy'n dangos i bobl am beth mae'r ffydd Gristnogol a sut mae modd i ni gyfrannu'n well at rannu ein ffydd yng ngolwg y cyhoedd?

### 5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
Diolchwn i ti am ein tywys at afonydd yn y diffeithwch.
Diolchwn i ti am roi i ni ddŵr y bywyd i'w yfed,
a'th fod yn ein llenwi ni, ein pobl, yn unig â phethau da.
Dysga ni i ddiolch bob dydd am estyn dy law i'n tywys,
am ffynhonnau iachâd ac ysbrydoliaeth,
a helpa ni i arwain pawb arall sy'n sychedu am obaith,
at lif diderfyn dy drugaredd, dy ras a'th gariad.
Amen.



*Y Baddondai yn Ffynnon Gwenffrewi, ger Woolston, Swydd Amwythig cc-by-sa/2.0 - © Des Blenkinsopp - geograph.org.uk/p/2945521*

# Cymdeithas Annibynwyr y Byd

### Rhanbarth Gogledd Ewrop

Cyfarfu Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Ewrop o Gymdeithas Annibynwyr y Byd ar 9 Mawrth, nid mewn lleoliad arbennig gan mai cyfarfod ar Zoom ydoedd.

Yn cadeirio'r gweithgareddau yr oedd yr ysgrifennydd rhanbarth, y Parchg Dylan Rhys, Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl, ac un mater i'w drafod oedd manylion aelodaeth y pwyllgor gan fod peth ansicrwydd wedi bod am hyn yn ystod y misoedd diwethaf. Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg â lle blaenllaw ynddo nid yn unig am fod Dylan Rhys yn ei gadeirio, ond hefyd oherwydd fod y Parchg Gwilym Tudur, Aberystwyth a Thal-y-bont wedi ei ethol yn ysgrifennydd am y flwyddyn nesaf, a'i ewyrth, Dr Geraint Tudur, Bangor, wedi bod yn drysorydd ers rhai blynyddoedd bellach.



Hefyd ar y pwyllgor o'r Undeb y mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Dyfrig Rees, y Parchg Gwylfa Evans, Harrow, a'r Dr Fiona Gannon, Clydach.

### Llwyddiant cynhadledd rithiol

Ar ôl cadarnhau'r enwau hynny, ac eraill, cafwyd trafodaeth fer am lwyddiant cynhadledd rithiol Cymdeithas Annibynwyr y Byd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021 a nodwyd cymaint yr oedd rhai wedi ei wneud i sicrhau y llwyddiant hwn. Er enghraifft, yr oedd cyfraniad un aelod o'r pwyllgor, Dr Janet Wootton, a oedd cyn ei hymddeoliad o fod yn Swyddog Hyfforddi y Gynghrair Gynulleidfaol, wedi bod yn aruthrol ond cydnabyddwyd hefyd fod eraill yn yr Unol Daleithiau wedi gwneud cyfraniad sylweddol.

### Edrych i'r dyfodol

Gyda golwg ar y dyfodol, y bwriad nawr yw cynnal cynhadledd rithiol arall, ond un undydd y tro hwn, cyn diwedd eleni. Y gobaith wedyn yw y bydd y sefyllfa gyda'r pandemig wedi gwella digon i bobl fod â'r hyder i deithio i gynhadledd wyneb-yn wyneb yn 2023, a honno i'w chynnal ar arfordir dwyreiniol yr Unol Daleithiau, o bosibl yng nghyffiniau dinas Boston, Massachusetts.

### Materion ariannol

Fel ym mhob pwyllgor, cafwyd trafodaeth am faterion ariannol, ond oherwydd cefnogaeth a nawdd caredig Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'r Gynghrair Gynulleidfaol, nid oedd unrhyw bryderon i'w nodi. Awgrymwyd mewn trafodaeth y byddai'n syniad da pe byddai'r rhanbarth yn cysylltu â Rhanbarth Awstralia, Seland Newydd a'r Môr Tawel er mwyn trefnu sgwrs ar Zoom; trwy wneud hynny, meddid, gellid goresgyn pellteroedd a dod i adnabod ein gilydd yn well. Nodwyd hefyd mai da o beth fyddai cynnal un neu ddau o ddigwyddiadau Zoom trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y misoedd sydd i ddod. Cytunodd pawb yn unfrydol â'r awgrymiadau hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, unwaith eto ar Zoom, rhywdro yn ystod mis Mehefin. Ynddo, bydd angen trafod ein cyfraniad ni fel Cymry, yn unigolion ac eglwysi, i'r gynhadledd rithwir yn yr hydref.

Go brin y bydd prinder syniadau!

**Geraint Tudur**

# Diwedd y byd?

Profiad dirdynnol yw clywed y newyddion am y gyflafan sy'n digwydd yn Wcráin. Mae gweld y dinistr y mae rhyfel yn ei achosi yn ysgwyd rhywun gan ein gorfodi i ofyn cwestiynau caled amdanom fel dynoliaeth. Ond dydy'r cwestiynau yma ddim yn rhai newydd. Yn ddiweddar gwelais gyfweliad gyda chyn arweinydd yr Undeb Sofietaidd, Mikhail Gorbachev, pan ofynnwyd iddo sut yr oedd o'n asesu pa mor ddiogel yw'r byd? Rhybuddiodd bod y byd cyfan mewn perygl enfawr tra mae arfau niwclear ar gael a phobl ddrygionus yn sôn am eu defnyddio. A dyna'n sefyllfa ni ar hyn o bryd.

### Ffydd yn Iesu

Dwi'n siŵr fod llawer o bobl yn tybio bod materion fel hyn yn rhy ddwys i'w hystyried, ac mai'r ateb yw anwybyddu'r cyfan a chario 'mlaen hefo'n bywydau. Ond nid dyna'r ffordd y gwnaeth yr Arglwydd Iesu baratoi ei ddisgyblion at y dyfodol. Ac nid felly mae Cristnogion wedi dyfalbarhau trwy gyfnodau mwyaf ansefydlog a brawychus hanes ychwaith. Yn Mathew 23:44, gwelwn Iesu'n rhybuddio'i ddisgyblion i beidio bod yn ddifeddwl gan fod diwedd y byd yn dod. Roedd am wneud yn siŵr eu bod yn barod:

> Felly rhaid i chi hefyd fod yn barod drwy'r adeg. Bydda i, Mab y Dyn, yn cyrraedd pan fyddwch chi ddim yn disgwyl!

A'r ffordd i fod yn barod am ailddyfodiad Iesu neu ddiwedd ein bywyd daearol? Gwneud yn siŵr ein bod wedi rhoi'n ffydd ynddo Ef a'n bod yn byw yn ôl Ei orchmynion er gwaethaf y temtasiynau neu'r pwysau sydd arnom.

### Buddugoliaeth

Mae'r Beibl yn cydnabod mor fregus yw ein bodolaeth, ac mor boenus o anwadal y gall byw mewn byd toredig fod. Ond yn wyneb hynny, nid panig nac anobaith sy'n cael ei annog ond ffydd. Mae'r Beibl yn llawn o hanesion am bobl feidrol gafodd eu cynnal wrth iddynt ddibynnu ar ffyddlondeb, gallu a chariad digyfnewid y Duw a ddaeth i'n byd yn Iesu Grist. Oherwydd aberth a buddugoliaeth syfrdanol Iesu dros farwolaeth, mae'r Cristion trwy ras yn etifeddu gobaith cadarn am fywyd tragwyddol, a thrwy hynny gallwn ddygymod â phresennol ansicr yn ôl anogaeth Pedr:

> Ond disgwyl yr ydym ni, yn ôl ei addewid ef, am nefoedd newydd a daear newydd, lle bydd cyfiawnder yn cartrefu.
>
> (2 Pedr 3:13)

Saif heb siglo yn dragwyddol
  eiriau yr anfeidrol Fod,
saif ei gyngor a'i gyfamod
  pan ddatodo rhwymau'r rhod;
teyrnas ydyw na ddiflanna,
  rhodia'i deiliaid oll yn rhydd,
a phan syrth gogoniant anian
  harddwch hon yn fwyfwy fydd.

RICHARD JONES, 1772–1833 255 *CFf*

**Rhodri Glyn**

# Golygyddol

## Y portreadwr

Harri Parri - gweinidog da, sgriptiwr da, awdur da (toreithiog hefyd), ffrind da a thriw i'r eithaf. Yn wir, dyn da. Beth yn fwy fedra i ei ddweud? Fel un fu'n gymydog iddo am nifer o flynyddoedd - fo yng Nghaernarfon a minnau ym Mhenygroes, gallaf ddweud bod pob gair o'r rhestr hon yn gywir, er y medra i weld Harri yn mynd i'w gragen oherwydd ei ostyngeiddrwydd naturiol.

### Yr awdur

Dros gyfnod o flynyddoedd maith bellach, daeth ag amrywiaeth o gyfrolau o'r wasg, rhai ohonynt yn ddogfennau hanesyddol pur bwysig bellach; ac eraill yn gwneud i bawb ohonom i wenu, yn arbennig wrth ddarllen hanes trigolion amrywiol Carreg Boeth a Phorth yr Aur. Byddai Eilir Tomos, y gweinidog dychmygol, yn gocyn hitio cyson. Os caf i ddweud, mi wnaeth y cyfrolau, a hefyd ddehongliad godidog John Ogwen o'r cymeriadau, fyd o les i ffug-barchusrwydd y sefydliad crefyddol, ac fe wnaeth i bawb ohonom edrych arnom ein hunain, a chywilyddio ar dro, a gwenu dro arall.

### Portreadwr

Ynghlwm wrth ddawn Harri fel awdur y mae ei ddawn fel portreadwr cymeriadau dychmygol fel rhai Carreg Boeth a Phorth yr Aur, ond rhai heb fod yn ddychmygol 'chwaith.

'Nôl yn 2013, daeth â'r gyfrol *O'r Un Brethyn* o'r wasg, sef cyfrol o wyth portread cymeriadau gwahanol iawn i'w gilydd, rhai wedi'n gadael bellach, a rhai oedd yn adnabyddus iawn i mi ond eraill yn anadnabyddus. Dyma nhw: Robin Williams, Mari Lloyd-Williams, y Tad Dewi, Idwal Wynne Jones, Bonnie a Vivian Davies, Gareth Maelor, y Tad Bonaventure a James Lusted. Gwir yw dweud bod gan Harri gyfrol arall yn dilyn yr un trywydd, ond er hwylustod mi arhoswn ni efo hon. Mi rydw i'n nabod Mari Lloyd-Williams, ac mi ro'n i'n nabod Robin, Idwal Wynne a Gareth Maelor, ac y mae disgrifiadau'r portreadwr o'r o'r bobl hyn yn berffaith. Ond ei gamp fawr i mi oedd portreadu'r Tad Dewi, Bonnie a Vivian Davies, y Tad Bonaventure a James Lusted, am y rheswm syml na fu i mi erioed eu nabod nhw. Ond wedi darllen eu hanes a gweld Harri Parri yn mynd i ganol eu byd a'u bywyd, mi rydw innau'n teimlo ers peth amser bellach fy mod innau'n eu hadnabod nhw. A dawn llenor a phortreadwr yw hyn, heb amheuaeth.

### Cyflwyno Iesu

Tasg pob Cristion yw defnyddio dull y portreadwr wrth gyflwyno Iesu i eraill. Mae'n rhoi'r manylion am Iesu, ydi; mae'n dweud hanes a chefndir ei deulu, ydi; y mae'n portreadu'r Iesu yn ei fywyd ei hun ac yn gofyn am nerth i fyw fel Iesu. Ond i mi, dweud am yr hyn mae Iesu wedi ei wneud yn ei fywyd o'i hun - Iesu'r Gwaredwr, yr Iesu a'n gwaredodd ni o afael y tywyllwch - yw'r gamp fawr. Llwyddodd Harri Parri i ddweud am ei berthynas ef ei hun â'r gwrthrychau yn y gyfrol dan sylw, a gwneud hynny'n ddi-lol a di-ffŷs.

### Sul y Blodau

Beth yn union welwn ni yn hanes yr orymdaith i Jerwsalem? Mi wela i lawer iawn o bethau yn yr Iesu yma: mi wela i Iesu'r heddychwr yn mynd ar gefn ebol; mi welai Iesu yn annog ei ddisgyblion i droi clust fyddar i *gossip* y dyrfa pan oedden nhw'n amlwg mewn syndod o weld yr Iesu yn marchogaeth ar yr ebol; mi wela i hefyd elfen o barch y dyrfa yn gosod dail palmwydd wrth i'r Iesu orymdeithio. Ond mi wela i Iesu'r Gwaredwr hefyd yn barod i wynebu Calfaria ac i roi ei fywyd yn aberth drosom ni yn y pen draw ac yn barod i ddangos grym ei fuddugoliaeth dros bob drwg. A dim ond Iesu'r Gwaredwr fedrai wneud hynny. Diolch i awduron y pedair efengyl am eu portreadau ohono er mwyn i ni ddod i'w adnabod o.

Bendith arnoch chi i gyd dros Ŵyl y Pasg.

**Iwan Llewelyn**

# Newyddion Tŷ John Penri

Mae Miss Ann Williams, yr Ysgrifennydd Gweinyddol, bellach wedi symud i weithio'n rhan amser, a hynny o ddydd Mawrth i ddydd Iau, yn wythnosol. Fe fydd hi ar gael fel arfer ar y diwrnodau hynny i ymateb i ymholiadau. Mae hwn yn gyfle da i ddiolch o galon i Ann am ei holl waith dros y blynyddoedd ac i ddymuno'n dda iddi eto o dan y trefniant newydd.

Profodd y system ffôn newydd fu'n weithredol ers dechrau'r cyfnod clo cyntaf ei gwerth ganwaith drosodd gan alluogi'r staff i ateb galwadau a chysylltu â'i gilydd o'u lle gwaith, boed o'r swyddfa yn Abertawe neu o adref. Mae'r hyn fu'n achubiaeth inni'n gynnar yn y pandemig wedi datblygu i fod yn gyfrwng sy'n ein galluogi i fod dipyn mwy hyblyg, ac effeithiol hefyd, gobeithio o ran patrwm gwaith a bywyd swyddfa. Ar hyn o bryd, daw'r staff ynghyd i Dŷ John Penri ar ddyddiau Mawrth ac Iau.

Daw tymor cyfredol ymgeisio am nawdd y Rhaglen Arloesi a Buddsoddi i ben ddydd Gwener, 29 Ebrill. Dylai pob cais gyrraedd desg yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn y dyddiad hwnnw, fan pellaf.




**CAPEL Y NANT CLYDACH**

Oedfa neilltuo arweinydd newydd

**Dr Fiona Gannon**

Nos Sul, 24 Ebrill am 5.00pm

Oedfa yng ngofal Robat Powell
a'r Parchg Dewi M. Hughes

CROESO CYNNES I BAWB

## BEDDARGRAFF UNBEN

(Efelychiad o gerdd W. H. Auden 'Epitaph on a Tyrant')

Perffeithrwydd o fath oedd amcan ei holl waith
A chwedlau syml oedd y rhai adroddai.
Am ffolineb dynion doedd dim na wyddai
A milwyr ac arfau oedd ei ddiléit cyson.
Pan wenai, chwarddai gwŷr llys â llygaid llaith.
Pan lefai, plant marw a lenwai pob lôn.

Alun Ffred Jones

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# APÊL AT BENNAETH EGLWYS UNIONGRED RWSIA

Geraint Rees, Efailisaf, un o selogion gŵyl Greenbelt soniodd ar Facebook yn ddiweddar am ei atgof o ŵyl 2018, â Masha o'r grŵp Pussy Riot yn datgan bryd hynny mai 'trindod ddrygionus (evil) Rwsia yw Putin, yr heddlu a'r Sancteiddrwydd Kirill, Patriarch Moscow a holl Rwsia, a phennaeth Eglwys Uniongred y wlad.'



Dyma osodiad y byddai darllenwyr *Y Tyst* yn siŵr o gydsynnid ag ef a hynny gyda thristwch hefyd. Mae'r ffaith bod gwas i Grist a bugail eneidiau tua 110 miliwn o bobl, sef 70% o boblogaeth Rwsia, mor frwd ei gefnogaeth i bolisïau annynol Putin a'i lywodraeth, yn achos cywilydd a galar inni ac yn beth i edifarhau o'i blegid.

## Brodyr yn y ffydd

A hyn yw galwad Ysgrifennydd Cyffredinol dros dro Cyngor Eglwysi'r Byd, y Parchg Athro Ioan Sauca (yn y llun), yn ei lythyr at ei Sancteiddrwydd Kirill. Nid dibwys y ffaith bo'r ddau ohonynt yn offeiriaid Uniongred, yn frodyr yn y ffydd, ac yn aelodau fel ninnau, Annibynwyr Cymru, ie, o Gyngor Eglwysi'r Byd ac yn fwy fyth, o deulu mawr Duw.

Ein gweddi fawr ninnau wrth ddarllen ac ystyried neges y llythyr a ddanfonwyd ddydd Mercher y Lludw, yw y daw ein brawd Kirill, ynghyd â phob yr un ohonom yn wir, i glywed neges efengyl tangnefedd o'r newydd a chael ein hargyhoeddi mai wrth ddilyn Iesu'r Tywysog Heddychlon y daw bywyd yn ei holl gyflawnder yn eiddo pobloedd y byd.

Eich Sancteiddrwydd,

Gyda phoen mawr a chalon doredig yr ysgrifennaf atoch, Eich Sancteiddrwydd. Mae sefyllfa drasig y rhyfel yn Wcráin wedi dod â dioddefaint aruthrol ac wedi dwyn bywydau lawer. Bu'n rhaid i lawer o'n brodyr a chwiorydd adael eu cartrefi – gan gynnwys yr henoed, menywod, a phlant – i achub eu bywydau. Mae'r byd i gyd yn edrych yn bryderus ac yn disgwyl gweld arwydd o obaith am ateb heddychlon. Rwy'n derbyn llythyrau bob dydd o wahanol rannau o'r byd, oddi wrth arweinwyr eglwysig a ffyddloniaid Cyngor Eglwysi'r Byd yn gofyn i mi eich annog, Eich Sancteiddrwydd, i weithredu fel cyfryngwr fel y gellir atal y rhyfel a dod â'r dioddefaint mawr i ben. Yn yr amseroedd hyn o anobaith, mae llawer yn edrych arnoch chi fel yr un a allai ddod ag arwydd o obaith am ateb heddychlon.

Ysgrifennaf at Eich Sancteiddrwydd fel ysgrifennydd cyffredinol dros dro CEB ond hefyd fel offeiriad Uniongred. Os gwelwch yn dda, codwch eich llais a siaradwch ar ran y brodyr a'r chwiorydd sy'n dioddef, y rhan fwyaf ohonynt hefyd yn aelodau ffyddlon o'n Heglwys Uniongred.

Mae Cristnogion y Gorllewin yn dathlu heddiw, Dydd Mercher y Lludw, dydd edifeirwch fel dechrau'r Grawys; yn yr un modd, byddwn ni, fel Uniongred, yn dathlu'r Sul nesaf hwn, sef 'Dydd Sul Maddeuant' i nodi dechrau'r Grawys ddydd Llun nesaf. Mae'r eiliadau pwerus hyn yn ein calendrau litwrgaidd yn ein galw i edifeirwch, heddwch a chymod.

Wrth ddathlu'r eiliadau ysbrydol hyn, gyda pharch ac ystyriaeth frawdol, ysgrifennaf at Eich Sancteiddrwydd i ymyrryd a chyfryngu â'r awdurdodau i atal y rhyfel hwn, y tywallt gwaed a'r dioddefaint, ac i wneud ymdrechion i ddod â heddwch trwy ddeialog a thrafodaethau.

Yr eiddoch yn barchus yn ein Harglwydd Iesu Grist,

**Y Parchg Athro Ioan Sauca**

## Emyn Heddwch gan Sian Meinir

Ynghanol dwndwr rhyfedd
Ein byd daerol ni,
Gad inni gofio Iesu
A'i ffordd i Galfari,
A dysg y byd i fyw mewn hedd
Trwy wrthod trais a chladdu'r cledd.

Gynlluniwr mawr y gofod,
Awdur y cread maith,
Rho nerth i'r tangnefeddwyr
A hyder yn eu gwaith;
Fel bo i wledydd yn ein hoes
Gael byw'n gytûn yng ngolau'r Groes.

Gyfaill yr anffodusion,
Pleidiwr diniwed rai,
Bydd gymorth rhwydd i ninnau
I ddewis maddau bai;
A gwneud ein byd yn fyd i fyw
Drwy gymod - yn baradwys Duw.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*